

## Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles



**Ydych chi'n angerddol am drawsnewid bywydau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol? Mae Cyngor Bro Morgannwg yn chwilio am arweinydd ymroddedig a gweledigaethol i fod yn Bennaeth nesaf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles. Yn y rôl ganolog hon, byddwch yn arwain ein hymdrechion i ddarparu gwasanaethau addysg a chymorth cynhwysol o ansawdd uchel, gan sicrhau y gall pob dysgwr ffynnu. Ymunwch â ni yn ein hymrwymiad i feithrin amgylchedd dysgu cadarnhaol a chynhwysol lle bydd eich arweinyddiaeth yn sbarduno newid ystyrlon ac yn cael effaith barhaol ar ein cymuned.**

### Y Rôl:

Rydym yn chwilio am arweinydd ymroddedig a gweledigaethol i ymgymryd â rôl Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles. Mae'r rôl hon yn hollbwysig wrth weithredu'r Ddeddf ADY a chefnogi disgyblion ag anghenion cymhleth, seicoleg addysgol, a gwasanaethau arbenigol. Mae cydweithio yn hollbwysig, a byddwch yn creu cysylltiadau agos â chydweithwyr ar draws y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau a meysydd eraill y Cyngor, Ysgolion a thu hwnt i sicrhau cefnogaeth gynhwysfawr i ysgolion, disgyblion a theuluoedd.

### Cyfrifoldebau Allweddol:

- **Arweinyddiaeth Strategol:** Darparu arweinyddiaeth weledigaethol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau strategol ar gyfer ADY a Lles, gan gyd-fynd â gweledigaeth ac amcanion y Cyngor.
- **Rheoli Gweithredol:** Sicrhau darparu gwasanaethau ADY yn effeithiol a gwella'n barhaus, gan ddiwallu anghenion disgyblion a chynnal safonau uchel.
- **Diogelu:** Gweithredu fel Swyddog Arweiniol Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu mewn Addysg, gan sicrhau polisïau ac arferion diogelu cadarn.
- **Cydweithio:** Gweithio'n agos â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan feithrin partneriaethau i wella darparu gwasanaethau a chefnogaeth i ysgolion, disgyblion a theuluoedd.
- **Arweinyddiaeth Tîm:** Ysbrydoli a rheoli tîmau, hyrwyddo diwylliant sy'n cael ei yrru gan werthoedd a darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol.
- **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:** Adeiladu a chynnal perthnasoedd effeithiol gydag aelodau etholedig, uwch arweinwyr, cydweithwyr ysgol, cyrff rheoleiddio, a phartneriaid allanol.
- **Gwella Gwasanaeth:** Gyrru arloesedd a thrawsnewid o fewn y gyfarwyddiaeth i sicrhau gwelliant parhaus ac addasu i anghenion newidiol.

### Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano:

Rydym yn chwilio am arweinydd ymroddedig sydd â phrofiad sylweddol mewn rheoli anghenion dysgu ychwanegol a gwasanaethau lles. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol gefndir cryf mewn arweinyddiaeth strategol, yn enwedig mewn lleoliadau addysgol, naill ai fel athro neu seicolegydd addysgol. Mae ymrwymiad dwfn i gynhwysoldeb, diogelu, a meithrin canlyniadau cadarnhaol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn hanfodol. Os ydych chi'n angerddol am wneud gwahaniaeth a gyrru newid cadarnhaol, rydym am glywed gennych chi.

### Ymunwch â ni:

Os ydych chi'n barod i gychwyn ar daith o arloesi, cydweithio ac effaith, rydym am glywed gennych chi. Ymunwch â ni i lunio dyfodol addysg ym Mro Morgannwg a gwneud gwahaniaeth ym mywydau ein dysgwyr. Gwnewch gais nawr i fod yn Bennaeth nesaf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles!

**Bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar 3 Gorffennaf 2024**





## Ynglŷn â Chyngor Bro Morgannwg

**Croeso i Fro Morgannwg, ardal sy'n cael ei ddathlu am ei harfordir syfrdanol, ei threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, a'i chymunedau bywiog. Fel un o awdurdodau lleol sy'n perfformio orau Cymru, rydym yn ymfalchïo yn ein hymrwymiad i ragoriaeth, arloesedd, a lles ein trigolion. Mae Bro Morgannwg nid yn unig yn lle hardd i fyw a gweithio ond hefyd yn amgylchedd deinamig a chefnogol i weithwyr proffesiynol addysg.**

Rydym yn awdurdod lleol sy'n perfformio'n gyson uchel gyda record gref o gyflawniad ar draws meysydd gwasanaeth. Mae ein Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu wedi gweld buddsoddiad cyfalaf helaeth ar draws ystâd ein hysgolion, gan gynnwys darparu ysgol Dim Carbon gyntaf Cymru, gyda darparu cyfleusterau i ddisgyblion ag ADY yn ganolog i'n rhaglen.

Mae ein diwylliant sefydliadol wedi'i adeiladu ar werthoedd craidd bod yn Agored, Gyda'n Gilydd, Uchelgeisio a Balch. Mae'r gwerthoedd hyn yn arwain popeth a wnawn, gan feithrin awyrgylch cydweithredol a chynhwysol lle mae pob aelod o'r tîm yn cael ei grymuso i gyfrannu at ein nodau a rennir. Rydym yn credu mewn bod yn dryloyw ac yn hygyrch, gweithio gyda'n gilydd fel uned gydlynol, ymdrechu am ragoriaeth yn ein holl ymdrechion, ac ymfalchïo yn ein cyflawniadau a'n cymuned.

Yn ddiweddar mae Bro Morgannwg wedi derbyn adroddiadau arolygu cadarnhaol gan Estyn, sy'n canmol ein dulliau arloesol, ein harweinyddiaeth gref, ac ymrwymiad i welliant parhaus. Mae'r anrhydeddau hyn yn brawf o'n hymroddiad i greu amgylcheddau dysgu cynhwysol ac effeithiol lle gall pob myfyriwr lwyddo.

Mae ein Fro yn tapestri o gymunedau amrywiol, pob un â'i ddyheadau a'i heriau addysgol unigryw ei hun. O ganolfannau trefol prysur i bentrefi gwledig hardd ac ardaloedd arfordirol trawiadol, rydym yn deall pwysigrwydd teilwra ein mentrau addysgol i ddiwallu anghenion amrywiol ein trigolion. Gyda phoblogaeth sy'n fwy na 130,000 o drigolion, mae ein heffaith ar addysg yn cyrraedd pob cornel o Fro Morgannwg. Boed hynny drwy ein hysgolion, gwasanaethau ieuencid, neu raglenni dysgu oedolion, rydym yn ymroddedig i feithrin potensial pob unigolyn a sicrhau mynediad cyfartal i addysg o safon i bawb.

Mae ein tîm o dros 5,000 o aelodau staff yn anelu at ragoriaeth addysgol ym mhopeth maen nhw'n ei wneud. O athrawon a staff cymorth i weithwyr proffesiynol gweinyddol ac addysgwyr cymunedol, mae pob aelod o'n tîm yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio dyfodol ein cymunedau. Mae cydweithio a phartneriaeth wrth wraidd ein llwyddiant. Mae ein hysgolion, ein teuluoedd, a'n partneriaid cymunedol yn gweithio law yn llaw i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i gyflawni ei lawn botensial. Mae'r ysbryd cydweithredol hwn yn rhan annatod o'n llwyddiant ac fe'i hadlewyrchir yn y rhwydweithiau cymorth cryf a'r adnoddau sydd ar gael i'n staff a'n myfyrwyr.

Ymunwch â ni ym Mro Morgannwg, lle cewch gymuned gefnogol ac ysbrydoledig sy'n ymroddedig i wneud gwahaniaeth ystyrlon ym mywydau ein plant a'n pobl ifanc. Bydd eich arbenigedd a'ch arweinyddiaeth yn allweddol wrth sbarduno newid cadarnhaol a sicrhau bod ein dysgwyr yn derbyn y gefnogaeth a'r addysg orau bosibl. Fel corff cyhoeddus, rydym yn cymryd effaith hirdymor ein penderfyniadau o ddirif. Drwy flaenoriaethu lles cenedlaethau'r dyfodol, rydym yn sicrhau bod ein mentrau addysgol nid yn unig yn diwallu anghenion heddiw ond hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer yfory mwy disglair, mwy llewyrchus.



## Ein Gwerthoedd



# Cofleidio Agored, Uchelgais, Cydweithio, a Balchder: Ein Gwerthoedd Craidd yng Nghyngor Bro Morgannwg

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, nid geiriau ar dudalen yn unig yw ein gwerthoedd — nhw yw'r pileri sy'n arwain ein gweithredoedd, ein penderfyniadau a'n rhyngweithiadau. Rydym yn credu'n galonog mewn bod yn Agored, Uchelgeisio, Cydweithio, ac yn Balch, ac rydym yn ymgorffori'r gwerthoedd hyn ym mhopeth a wnawn.

### AGORED:

Rydym yn meithrin amgylchedd o dryloywder a hygyrchedd. Rydym yn credu mewn cyfathrebu agored, lle mae syniadau a gwybodaeth yn llifo'n rhydd. Rydym yn annog deialog, gwranddo gweithredol, ac adborth adeiladol. Drwy fod yn agored, rydym yn creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi safbwyntiau amrywiol ac yn hyrwyddo cydweithio, gan sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed.

Yn y rôl hon, mae bod yn agored yn golygu meithrin tryloywder mewn prosesau gwneud penderfyniadau, ymgysylltu â rhanddeiliaid yn agored, a sicrhau cyfathrebu effeithiol â staff, ysgolion, a'r gymuned er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chynhwysoldeb.

### UCHELGEISIOL:

Rydym yn meddwl ymlaen ac yn ceisio cofleidio ffyrdd newydd o weithio gyda'n cydweithwyr, ein partneriaid, preswylwyr, a'r rhai sy'n gwneud busnes ym Mro Morgannwg. Rydym yn buddsoddi yn ein dyfodol, boed hynny yn sgiliau ein gweithlu, yr asedau yr ydym yn eu defnyddio neu ein perthynas ag eraill. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymddiriedaeth a roddir ynom gan ein cymuned ac rydym yn uchelgeisiol i ddarparu rhagoriaeth ym mhob un a wnawn ar eu rhan.

Fel Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles, mae uchelgais yn cyfieithu at yrru arferion arloesol, cofleidio ffyrdd newydd o weithio, ac ymdrechu'n barhaus am welliant. Mae'r rôl hon yn gofyn am ddull blaengar i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau ADY a chymorth lles.

### CYDWEITHIO:

Cydweithio yw conglfaen ein llwyddiant. Rydym yn credu, trwy weithio gyda'n gilydd, ein bod yn cyflawni mwy. Rydym yn meithrin diwylliant o waith tîm, lle mae unigolion ar draws adrannau a disgyblaethau yn dod at ei gilydd i fynd i'r afael â heriau, rhannu gwybodaeth, a trosoli eu cryfderau ar y cyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn Adnoddau Corfforaethol. Rydym yn mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithio â phob rhan o'r Cyngor, gan gynnwys yn bwysig gyda'n hysgolion, gyda'n cymuned, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, gan gydnabod y gallwn gael mwy o effaith gyda'n gilydd.

Mae gweithio gyda'n gilydd yn golygu cydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol, parchu amrywiaeth, ac ymrwymo i wasanaethau o safon. Mae'n golygu meithrin perthnasoedd cryf gyda chydweithwyr, ysgolion a phartneriaid cymunedol i greu cefnogaeth ddi-dor i'r holl ddysgwyr.

## Ein Gwerthoedd (parhau)



### BALCH:

Rydym yn ymfalchïo'n aruthrol mewn gwasanaethu Bro Morgannwg a'i thrigolion. Rydym yn falch o'n cyflawniadau, yr effaith gadarnhaol a wnawn, ac ymroddiad ein tîm. Rydym yn dathlu ein llwyddiannau, mawr a bach, ac yn cydnabod ymdrechion ein staff wrth ddarparu gwasanaethau eithriadol. Mae ein balchder yn deillio o'n hymrwymiad i ragoriaeth, ein cyfraniad i'r gymuned, a'n hymroddiad diysgog i wneud gwahaniaeth.

Mae ymfalchïo yn y rôl hon yn golygu hyrwyddo rhagoriaeth addysgol, dathlu cyflawniadau a lles myfyrwyr, ac ymgorffori gwerthoedd Cyngor Bro Morgannwg. Mae'n golygu bod yn eiriolwr angerddol dros newid cadarnhaol a safonau uchel mewn addysg a gwasanaethau cymorth.

Trwy gofleidio ein gwerthoedd o Agored, Uchelgeisio, Gyda'n Gilydd, a Balch, rydym yn meithrin amgylchedd gwaith sy'n meithrin ymddiriedaeth, cydweithio, ac ymdeimlad o berthyn. Nid yw'r gwerthoedd hyn ar gyfer rhyngweithio mewnol yn unig - maent yn ymestyn i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phawb yr ydym yn gweithio gyda nhw. Rydym wedi ymrwymo i gynnal y gwerthoedd hyn ym mhob agwedd ar ein gwaith, gan sicrhau ein bod yn meithrin perthnasoedd cryf yn seiliedig ar uniondeb, parch, a chyflawniadau a rennir.

Reception  
Derbynfa 

VALE of GLAMORGAN

## Ein Cynlluniau i'r Dyfodol

**Diolch i chi am eich diddordeb yn y rôl Pennaeth ADY a Lles. Rydym yn sefydliad sy'n meddwl yn y tymor hir ac wedi ymrwymo i adeiladu etifeddiaeth o gymunedau bywiog a chynaliadwy yn y Fro. Rydym wedi amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer cymunedau cryf sydd â dyfodol disglair yn ein cynllun corfforaethol, ynghyd â'n pedwar amcan llesiant cyffredinol:**

- Gweithio gyda'n cymunedau ac ar eu cyfer
- Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Fel Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, fy rôl i yw cefnogi'r Prif Weithredwr wrth gyflawni'r cynllun hwn. Credaf yn angerddol bod gwasanaeth cyhoeddus yn ymwneud â gweithio i feithrin cymunedau cryf, i ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed, i roi mwy o ddewisiadau bywyd i bobl, a helpu pawb i gyflawni eu potensial.

Rydym yn awdurdod lleol sy'n perfformio'n gyson uchel gyda chofnod cryf o gyflawniad ar draws meysydd gwasanaeth, fel y cydnabuwyd yn ein harolygiad diweddar gan Estyn. Mae ein Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu wedi gweld buddsoddiad cyfalaf helaeth ar draws ystâd ein hysgolion gan gynnwys darparu ysgol Dim Carbon gyntaf Cymru gyda darparu cyfleusterau i ddisgyblion gydag ADY yn ganolog i'n rhaglen.

Rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol o ran gweithredu'r Ddeddf ADY ac rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gefnogi ysgolion i ymgorffori'r Ymagwedd Ysgol Gyfan tuag at lechyd Meddwl a Lles. Rwy'n edrych i benodi person egniol a phrofiadol i arwain y gwaith hwn yn ogystal â datblygiad ehangach gwasanaethau ADY a Lles.

Er bod Cynghorau yn gweithio mewn cyfnod byth mwy heriol, mae cyfleoedd cyffrous i chi lunio a dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau yn eich ardal eich hun, ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid. Mae'r rôl hon yn gofyn am rywun sy'n deall y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo ac sydd yr un mor angerddol am weithio i sicrhau canlyniadau gwell i'n dinasyddion ag yr ydym ni.

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych os hoffech drafod y cyfle hwn yn fanylach ac yn edrych ymlaen at dderbyn eich cais.

*Liz Jones, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau*

*E-bost: [elizjones@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:elizjones@valeofglamorgan.gov.uk) Ffôn: 07521 754195*





# Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles

## Proffil Rôl

<b>Teitl y Swydd</b>	Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Lles
<b>Cyfeirnod y Swydd</b>	Y-AA-AA001
<b>Gradd</b>	Pennaeth Gwasanaeth
<b>Cyfarwyddiaeth</b>	Dysgu a Sgiliau
<b>Lleoliad</b>	Swyddfeydd Dinesig, Y Barri a Gweithio o Bell
<b>Yn atebol i</b>	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau
<b>Yn gyfrifol am</b>	Gwasanaethau cymorth a darpariaeth ADY, gan gynnwys y Ddeddf ADY, cymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion cymhleth, seicoleg addysgol, gwasanaethau arbenigol a chyfrifoldeb am unedau adnoddau ADY mewn ysgolion. Cydweithio ar draws y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau i sicrhau darpariaeth a chymorth lles priodol i ysgolion, dysgwyr a theuluoedd. Diogelu, gan gymryd y cyfrifoldeb arweiniol am gyflawni dyletswyddau diogelu mewn addysg.

### Trosolwg o'r Rôl

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau addysg a chymorth o ansawdd uchel i'n cymunedau. Rydym yn ymdrechu i greu amgylchedd cynhwysol a chefnogol lle gall pob plentyn gyflawni ei botensial llawn. Mae ein gwerthoedd Agored, Gyda'n Gilydd, Uchelgeisiol, a Balch yn arwain ein gweithredoedd wrth i ni gydweithio i wella lles a deilliannau addysgol pob dysgwr.

Bydd y Pennaeth ADY a Lles yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o weithredu'r Ddeddf ADY yn raddol, mewn cymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion cymhleth, mewn seicoleg addysgol, ac mewn gwasanaethau arbenigol. Mae cydweithio'n hollbwysig, a byddwch yn meithrin cysylltiadau agos â chydweithwyr ar draws y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau a meysydd eraill y Cyngor i sicrhau cymorth cynhwysfawr i ysgolion, disgyblion a theuluoedd.

Ein Gwerthoedd	Ymddygiad	Beth mae'n ei olygu i ni
<b>UCHELGEISIOIOL</b>	Meddwl at y dyfodol, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>● Arloesedd: mae arweiniad strategol yn ysgogi arloesedd uchelgeisiol, gan groesawu arferion trawsnewidiol.</li> <li>● Gwelliant Parhaus: Adlewyrchir uchelgais wrth geisio gwelliant parhaus, ar gyfer addysgwyr a dysgwyr.</li> </ul>
<b>AGORED</b>	Agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydym yn eu gwneud.	<ul style="list-style-type: none"> <li>● Tryloywder: sicrhau tryloywder yn y prosesau gwneud penderfyniadau, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid yn agored.</li> <li>● Cynhwysiant: Drwy hyrwyddo amrywiaeth a thegwch, rydym yn creu amgylchedd agored a chynhwysol i bawb.</li> <li>● Cyfathrebu: Mae cyfathrebu'n rheolaidd â staff, ysgolion a'r gymuned yn meithrin bod yn agored ac ymddiriedaeth.</li> </ul>



## Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles Proffil Rôl (parhau)

### GYDA'N GILYDD

#### Ymddygiad

Gweithio fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, sy'n parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o safon.

### BALCH

Balch i wasanaethu ein cymunedau ac i fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.

#### Beth mae'n ei olygu i ni

- Partneriaethau: cydweithio â rhanddeiliaid mewnol ac allanol a phartneriaid i greu llwybrau addysgol di-dor.
- Ymgysylltu: Mae ymgysylltu ag aelodau etholedig, a swyddogion ar draws y Cyngor ac Ysgolion, yn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar y cyd a bod gweledigaeth a rennir.
- Rhagoriaeth Addysgol: rydym yn ymfalchïo mewn hyrwyddo rhagoriaeth addysgol, gan sicrhau safonau uchel ar draws pob lleoliad.
- Cyflawniadau Myfyrwyr: Mae dathlu cyflawniadau a lles myfyrwyr yn adlewyrchu balchder yn eu cynnydd.







## Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles Proffil Rôl (parhau)



### DISGRIFIAD SWYDD:

Fel y Pennaeth ADY a Lles, byddwch yn:

#### Rhagoriaeth Weithredol:

- Arwain ar ddull traws-gyfarwyddiaeth ac amlasiantaethol o ddatblygu dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â Lles ac iechyd meddwl, cymdeithasol, ac emosiynol.
- Gweithredu fel Swyddog Arweiniol Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu mewn Addysg, gan sicrhau polisïau ac arferion diogelu cadarn.
- Sicrhau bod gwaith comisiynu, darparu a gwella parhaus o ran gwasanaethau'n unol â nodau ac amcanion y Cyngor.
- Adolygu darpariaeth ADY yn barhaus i sicrhau ei bod yn bodloni anghenion, yn cynnal ansawdd uchel, ac yn effeithlon.
- Sicrhau bod anghenion disgyblion sydd ag ADY yn cael eu nodi a'u hasesu, a bod y ddarpariaeth briodol yn cael ei gwneud.
- Sicrhau bod gwasanaethau atal, ymyrraeth gynnar a chymorth yn cael eu darparu'n effeithiol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
- Cefnogi ysgolion i sicrhau lles dysgwyr drwy ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau targedig.
- Cefnogi'r broses o ddatblygu arweiniad, sgiliau ac arbenigedd mewn ysgolion ynghylch ADY.
- Cyfrannu at y gwaith o nodi ysgolion sy'n achosi pryderon a chefnogi'r gwaith o'u gwella.
- Datblygu strategaethau mewn ymateb i ddemograffeg ac anghenion sy'n newid, yn unol â gofynion polisi a deddfwriaethol.
- Datblygu a chynnal strategaethau ar gyfer cynnwys plant, pobl ifanc, a rhieni/gofalwyr yn effeithiol mewn penderfyniadau ynghylch gwasanaethau.

#### Arweiniad Strategol:

- Fel Pennaeth y Gwasanaeth ADY a Lles, darparu gweledigaeth ac arweiniad clir sy'n ymgorffori gwerthoedd y Cyngor.
- Cydweithio â'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i ddatblygu a gweithredu cynlluniau strategol sy'n cyd-fynd â gweledigaeth, Cynllun Corfforaethol a gwerthoedd y Cyngor i wella'r gwaith o roi cymorth lles ac ADY.
- Gweithio gyda chydweithwyr i sefydlu ac ymwreiddio diwylliant sefydliad sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r ymddygiadau a'r perfformiad cywir i sicrhau bod canlyniadau sy'n bodloni Cynllun Corfforaethol ac amcanion strategol y Cyngor yn cael eu cyflawni.
- Drwy eich ymddygiad eich hun, dangos esiampl o ran y cymwyseddau arwain ymddygiadol gan hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o ymwreiddio gwerthoedd a chymwyseddau ymddygiadol y Cyngor ar draws pob lefel y sefydliad i adeiladu diwylliant y sefydliad.
- Chwilio am gyfleoedd o fewn y gyfarwyddiaeth i arloesi a thrawsnewid swyddogaethau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus ac esblygu'r gweithrediadau i gwrdd â'r cyfleoedd a'r heriau sy'n newid y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.



# Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles Proffil Rôl (parhau)



## Rheoli Timau:

- Arwain timau a meithrin diwylliant sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n seiliedig ar werthoedd, gan ysbrydoli pobl o fewn y Gwasanaeth ac ar draws y Cyngor i gyflawni canlyniadau gwych.
- Cynnig arweiniad, cymorth a chyfluoedd datblygiad proffesiynol i alluogi staff i ragori yn eu rolau.
- Meithrin diwylliant cryf o reoli perfformiad, gan sicrhau lefelau uchel o berfformiad a datblygu gwasanaethau'n barhaus.
- Creu a chyfleu eglurder o ran cyfeiriad a phwrpas staff ar bob lefel yng nghyd-destun nodau ac uchelgeisiau strategol y Cyngor.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:

- Meithrin a chynnal perthnasau effeithiol gydag aelodau etholedig, uwch arweinwyr, cydweithwyr ysgol, cyrff rheoleiddio, partneriaid allanol a rhanddeiliaid eraill, gan hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd ac ymddiriedaeth.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt allweddol ar gyfer asiantaethau allanol, gan gynrychioli buddiannau'r Awdurdod Lleol ac eirioli dros newid cadarnhaol o fewn y gymuned.
- Cydweithio â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ysgogi newid cadarnhaol a gwella gwasanaethau, gan gynnwys gweithio'n agos gydag aelodau, cyfoedion a sefydliadau partner.
- Cefnogi Aelodau Cabinet, Aelodau Craffu a phob Aelod Etholedig, a chydweithio â nhw. Mynd i gyfarfodydd perthnasol a chymryd rhan ynddynt yn ôl yr angen.
- Meithrin partneriaethau â gwasanaethau eraill y Cyngor, sefydliadau allanol, ysgolion, rhieni a grwpiau cymunedol i gyflawni amcanion a rennir.

## Dyletswyddau Cyffredinol:

- Sicrhau bod cyllidebau ac adnoddau'n cael eu rheoli, eu cynllunio a'u defnyddio'n effeithiol yn unol â chynlluniau gwasanaeth ac amcanion strategol.
- Mwyhau incwm a chyfluoedd am arian allanol yn unol â pholisi'r Cyngor.
- Ystyried cyfluoedd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau trwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.
- Hwyluso'r broses o gyflwyno polisiau, gweithdrefnau ac arfer i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Cyngor a chymryd rhan yn y broses honno.
- Sicrhau y caiff egwyddorion cyfle cyfartal eu hintegreiddio a'u dilyn yn weithredol yn y Gyfarwyddiaeth ac ym mhob rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Sicrhau cydymffurfiaeth barhaol â pholisiau, gweithdrefnau a deddfwriaeth y Cyngor gan gynnwys y rhai hynny'n ymwneud â rheoli cyflogeion, iechyd a diogelwch, cysylltiadau cwsmeriaid, diogelu, gwybodaeth, cydraddoldeb, yr amgylchedd a'r rhai sydd wedi'u nodi yn y Rheolau Ariannol a Gweithdrefnau Contract.

Yn ychwanegol i'r dyletswyddau uchod, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni unrhyw ddyletswyddau ychwanegol a allai ddeillio o newid amgylchiadau, ond nad ydynt o reidrwydd yn newid natur neu lefel cyfrifoldeb y swydd.



# Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles Manyleb Person



<b>1. Profiad</b>	<p><b>HANFODOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● Gallu dangos profiad perthnasol a diweddar o arwain yn strategol/gweithredol o fewn sefydliad mawr.</li> <li>● Profiad o ddatblygu strategaethau i gyflawni amcanion busnes.</li> <li>● Profiad o reoli arian / perfformiad yn llwyddiannus.</li> <li>● Profiad amlwg o reoli newid a gwneud gwaith trawsnewid gwasanaeth/sefydliadol yn llwyddiannus.</li> <li>● Profiad amlwg o weithio mewn partneriaeth/cydweithio.</li> </ul>	<p><b>DYMUNOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● Profiad o arolygiadau Estyn.</li> </ul>	<p><b>PROFIR TRWY</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● CV a Llythyr Eglurhaol.</li> <li>● Gweithgareddau Canolfan Asesu.</li> </ul>
<b>2. Gwybodaeth</b>	<p><b>HANFODOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● Dealltwriaeth gref o bolisiâu, deddfwriaeth, ac arfer gorau sy'n ymwneud ag ADY a Lles.</li> <li>● Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion a heriau Addysg cyfredol, gan gynnwys diogelu.</li> </ul>	<p><b>DYMUNOL</b></p>	<p><b>PROFIR TRWY</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● CV a Llythyr Eglurhaol.</li> <li>● Gweithgareddau Canolfan Asesu.</li> </ul>
<b>3. Sgiliau a rhinweddau</b>	<p><b>HANFODOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● Y gallu i ddangos esiampl o ran y cymwyseddau arwain ymddygiadol a hyrwyddo gwerthoedd a chymwyseddau ymddygiadol y Cyngor.</li> <li>● Y gallu i feddwl yn strategol a datblygu a gweithredu strategaethau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion sefydliadol.</li> <li>● Sgiliau arwain rhagorol a'r gallu i roi eglurder i'ch tîm ar weledigaeth a phwrpas ei waith.</li> <li>● Hanes cryf o adeiladu a meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol, a'r gallu i eirioli dros ragoriaeth, tegwch, a chynwysoldeb.</li> <li>● Sgiliau cyfathrebu hynod effeithiol, y gallu i ddylanwadu ar eraill gydag effaith a hygreddedd proffesiynol a'r gallu i gyfleu i gymuned amrywiol.</li> </ul>	<p><b>DYMUNOL</b></p>	<p><b>PROFIR TRWY</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● CV a Llythyr Eglurhaol.</li> <li>● Gweithgareddau Canolfan Asesu.</li> </ul>





## Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles Manyleb Person (parhau)

<p><b>3. Sgiliau a rhin-weddau (parhau)</b></p>	<p><b>HANFODOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol ac yn ymwybodol o reoliadau a thueddiadau perthnasol sy'n dod i'r amlwg.</li> <li>• Y gallu i reoli adnoddau'n effeithiol, gan gynnwys cyllidebau, staffio a chyfleusterau.</li> </ul>	<p><b>DYMUNOL</b></p>	<p><b>PROFIR TRWY</b></p>
<p><b>4. Cymwysterau a hyfforddiant</b></p>	<p><b>HANFODOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Athro neu seicolegydd addysg cymwys.</li> </ul>	<p><b>DYMUNOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymhwyster arwain a rheoli.</li> </ul>	<p><b>PROFIR TRWY</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• CV a Llythyr Eglurhaol.</li> </ul>
<p><b>5. Agwedd a chymhelliant</b></p>	<p><b>HANFODOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Uwch arweinydd brwdfrydig iawn, sy'n gallu dangos esiampl i aelodau o'r tîm ac i gyfoedion.</li> <li>• Gallu addasu a bod yn hyblyg i ateb amryw heriau.</li> <li>• Arweinydd ysbrydoledig, sy'n gallu ennyn diddordeb aelodau o'r tîm i berfformio'n eithriadol mewn amgylchedd heriol.</li> <li>• Hyrwyddwr newid arloesol, sy'n hapus i herio'r sefyllfa bresennol i gyflawni amcanion strategol a datrys problemau.</li> <li>• Brwdfrydig wrth ddangos esiampl o ran gwerthoedd y Cyngor.</li> </ul>	<p><b>DYMUNOL</b></p>	<p><b>PROFIR TRWY</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• CV a Llythyr Eglurhaol.</li> <li>• Gweithgareddau Canolfan Asesu.</li> </ul>
<p><b>6. Arall</b></p>	<p><b>HANFODOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hygrededd personol a phroffesiynol.</li> <li>• Meddu ar gymhelliant, egni a brwdfrydedd i gynnal agenda eang.</li> <li>• Y gallu i weithio y tu allan i oriau swyddfa arferol a mynychu cyfarfodydd gyda'r nos yn ôl yr angen.</li> <li>• Y gallu i yrru/teithio ar hyd a lled y Fro neu rhwng lleoliadau fel y bo'n briodol.</li> </ul>	<p><b>DYMUNOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y gallu i ddysgu neu siarad Cymraeg.</li> </ul>	<p><b>PROFIR TRWY</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• CV a Llythyr Eglurhaol.</li> <li>• Gweithgareddau Canolfan Asesu.</li> </ul>